Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH ANABLEDDAU DYSGU:

# Cymuned

## Creu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned.

**Rydyn ni eisiau gwella hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned drwy wella mynediad at wasanaethau arbenigol yn agos at y cartref. Byddwn ni hefyd yn gweithio tuag at ddatblygu cymunedau cynhwysol, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu gymryd rhan yn ddiogel mewn gweithgareddau.**



### BETH SY'N BWYSIG I BOBL AG ANABLEDDAU DYSGU?

Hoffai pobl ag anableddau dysgu eimlo fel pe baen nhw'n perthyn, yn gysylltiedig ag eraill, ac yn gallu cyfrannu at gymunedau trwy wirfoddoli a gwneud gweithgareddau.

Bydden nhw'n hoffi teimlo eu bod nhw'n cael eu hamddiffyn yn eu cymunedau, am y gallant brofi gwahaniaethu a galw enwau weithiau, sy'n gwneud iddyn nhw deimlo fel targed.

Hoffen nhw pe bai cymunedau'n teimlo'n gynhwysol, a bod gweithgareddau'n darparu ar gyfer ystod o anghenion cymhleth er mwyn iddyn nhw allu cymryd rhan ym mywyd y gymuned.



### BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Sicrhau bod pawb yn cael cyfle digonol i gael mynediad iddyn nhw heb rwystr cymhlethdodau.
- Adolygu cyfleoedd yn y gymuned yn ystod y dydd.
- Sicrhau bod hybiau cymunedol yn hygyrch ac yn berthnasol i bobl ag anabledd dysgu.

### PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Cymunedau mwy cynhwysol, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu gymryd rhan yn ddiogel mewn gweithgareddau.
- Pobl ag anabledd dysgu yn teimlo'n rhan o'u cymunedau.
- Llai o stigma a gwahaniaethu.

### DYWEDODD POBL

"Does dim llawer i'w gael yn fy nghymunned i, a dwi'n ei chael hi'n anodd teithio i fannau eraill heb gefnogaeth staff, neu rywun yn mynd â fi yno."